Cyngor Cymuned  Tachwedd 17 2016 am 8 o'r gloch yng nghapel Tabor

Presennol: Margaret Lewis, Morgan Morgans, Fred Jones, David Jones, y Cynghorydd Rowland Rees Evans, a'r clerc.

Ymddiheuriadau:  Islwyn Jones, Huw Griffith, Peter Tandy.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod Hydref 27 ac arwyddwyd eu bod yn gywir

Materion yn codi

1 Cywiro'r hysbysfwrdd – dim gwybodaeth bellach ar hyn o bryd.

2 Ymweliad heddlu Dyfed-Powys.  Wedi derbyn ateb i ddweud eu bod yn methu dod i'r cyfarfod hwn ond yn gofyn am ddyddiadau'r ddau gyfarfod nesaf. Cytunwyd ar Ionawr 19 a Chwefror 16.

Gohebiaeth

Derbyniwyd gwybodaeth am adolygiad y Cyngor Sir o'i gynllun Gwella Hawliau Tramwy; gwybodaeth am Bwyllgor Rheoli Datblygu mis Tachwedd.

Gofynnwyd i'r clerc lenwi ffurflen ynglŷn ag Asesiad Strategol Trosedd ac Anrhefn a'i dychwelyd.

Derbyniwyd gwahoddiad i brynhawn gwobrwyo Ysgol Henry Richard, dyddiadau diweddaraf cymorthfeydd Mark Williams mis Tachwedd a Rhagfyr i'w rhoi ar yr hysbysfwrdd, a chopi o'r cylchgrawn Clercs and Councils Direct.

Derbyniwyd map yn dangos lleoliad cau ffordd dros dro yn Blaenpennal Tachwedd 29 i Rhagfyr 2 i'w arddangos mewn man cyhoeddus.

Ariannol

Awdurdodwyd talu grant mynwentydd i'r Clwb Ffermwyr Ifanc - £600

Arian mewn llaw wedyn £1698. 66  Cyfrif 2 - £6301.48

Unrhyw fater arall

Wedi peth trafodaeth penderfynwyd cynnal cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned yn Neuadd Santes Ursula am 8 o'r gloch ar Ionawr 19 os na chwyd mater fydd angen ei drafod cyn hynny.